# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd

# 2022 - 2026







UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir Strategol | 6 |
| Gweledigaeth, Egwyddorion a Nodau Allweddol | 7 |
| Datganiad o Angen | 8 |
| Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd | 13 |
| Sicrhau bod pawb yn cael y cymorth a'r gefnogaeth gywir | 15 |
| Mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym | 19 |
| Darparu llety â chymorth o ansawdd da i'r rhai sydd ei angen | 22 |
| Darparu gwasanaeth cynhwysol | 25 |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 25 |
| Arolwg Cleientiaid | 26 |
| Asesiadau o Effaith | 29 |
| Gweithredu, Monitro ac Adolygu | 30 |


UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Rhagair



## Y Cynghorydd Lynda Thorne

### Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau

Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd 2022-2026. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor a'n partneriaid i atal digartrefedd ac i gefnogi'r rhai hynny sy'n dod yn ddigartref, ond mae mwy i'w wneud o hyd.


Cyn y pandemig, roedd cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud o ran lleihau nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas ac roedd ffordd newydd ymlaen ar gyfer gwasanaethau digartrefedd wedi'i datblygu. Pan gyrhaeddodd y pandemig, cyflymodd y gwaith hwnnw wrth i ni symud yn gyflym i ddod â phawb i lety diogel hunangynhwysol ac i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael. Mae camau breision wedi'u cymryd ymlaen o ran darparu gwasanaethau iechyd a therapiwtig i'n cleientiaid sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Diolch i bawb a weithiodd i wneud i'r newid hwn ddigwydd, gan gynnwys swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, a chan ein partneriaid statudol a'n partneriaid yn y trydydd sector. Diolch hefyd i Lywodraeth Cymru am eu hymagwedd flaengar a'r cymorth ariannol a wnaeth y newid yn bosibl.

Mae heriau lawer o'n blaenau o hyd, gan gynnwys effaith economaidd y pandemig ar gyllidebau aelwydydd a chost uchel tai yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, yr ydym wedi adeiladu sylfaen dda i weithio ohoni.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal lle bynnag y bo modd, a lle mae'n digwydd mae'n digwydd am amser byr ac nid yw'n cael ei ailadrodd.

Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dull ailgartrefu cyflym o ymdrin â digartrefedd, ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd mynych, gan gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein dinas a pharhau i sicrhau newid gwirioneddol ym mywydau pobl.



Y Cynghorydd Lynda Thorne

# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd 2022—2026 yn nodi'r cyfeiriad strategol sengl ar gyfer atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yng Nghaerdydd am y pedair blynedd nesaf.

Gan ymateb i asesiad cynhwysfawr o anghenion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'n nodi ac yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y Cyngor a'i bartneriaid.



Cyn y pandemig, roedd Caerdydd wedi cynnal ymchwil helaeth i arfer da wrth fynd i'r afael â digartrefedd o'r DU a ledled y byd. Datblygwyd cynigion i wella gwasanaethau, i atal digartrefedd gymaint â phosibl, i sicrhau bod angen yn cael ei asesu'n effeithiol ac i ddarparu'r llwybrau cywir at lety.

Pan gyrhaeddodd pandemig Covid, roedd cyfle i gyflymu'r broses o weithredu'r newidiadau hyn. Parhaodd y cynnydd da a wnaed yn flaenorol o ran lleihau nifer y bobl oedd yn cysgu ar y stryd o 87 i 30 o unigolion, gan ostwng i 6 unigolyn yn ystod y cyfnod clo cychwynnol a sefydlogi yn yr 20au.

Cytunodd Cyngor Caerdydd na fyddai "dim mynd yn ôl" yn dilyn y pandemig a nododd ffordd newydd ymlaen ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth i bobl sengl a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd
- Darparu dull asesu / brysbennu i nodi angen yr unigolyn a sicrhau bod yr ateb cywir o ran llety a chymorth yn cael ei ddarparu
- Symud pobl yn gyflym i lety annibynnol gyda llwybrau ar wahân ar gyfer cleientiaid ag anghenion is
- I'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, darparu llety â chymorth hunangynhwysol o ansawdd da. .

# Cyflwyniad

Cymeradwywyd amrywiaeth o brosiectau i gefnogi'r ffordd newydd hon ymlaen gan gynnwys:

- Deatblygu Un Ganolfan Asesu Digartrefedd
- Ehangu’r Tîm Amlddisgyblaethol i'r Digartref
- Model newydd o wasanaeth iechyd a ddarperir yn uniongyrchol i hosteli
- Cynnydd sylweddol mewn capasiti a gwelliant yn ansawdd llety â chymorth i bobl sengl
- Darparu 3 Chanolfan Digartrefedd ymhlith Teuluoedd
- Cymryd rhan yng Nghynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru i wneud gwell defnydd o'r sector rhentu preifat.

Mae'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026 hon yn cyd-fynd yn llwyr ag ymrwymiadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol ac mae'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ledled Caerdydd.



# Cefndir Strategol

Wrth ddatblygu'r strategaeth, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o ddogfennau polisi a deddfwriaethol allweddol sy'n fframio Gwasanaethau Cymorth Tai a Digartrefedd.  Mae themâu allweddol sy'n rhedeg drwy'r dogfennau hyn, ochr yn ochr ag asesiad cynhwysfawr o anghenion ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chleientiaid, wedi llywio'r strategaeth hon a datblygiad ei gweledigaeth a'i nodau allweddol.

## Deddfwriaeth Allweddol

Mae ***Deddf Tai (Cymru) 2014*** yn nodi'r diffiniad cyfreithiol o ddigartrefedd. Fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru, at ddibenion y strategaeth hon defnyddiwyd y diffiniad ehangach canlynol o ddigartrefedd: ***'Lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw ei ddeiliadaeth yn ddiogel'***

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried lles hirdymor y boblogaeth a gweithio'n gynaliadwy i atal problemau parhaus megis tlodi ac anghydraddoldebau iechyd.

Mae ***Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*** yn canolbwyntio ar wella'r broses o rentu a rheoli eiddo yng Nghymru. Mae'n darparu contractau meddiannaeth newydd i denantiaid eiddo rhent preifat a chymdeithasol. Bydd y ddeddf hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid Rhent Preifat drwy ymestyn y cyfnod hysbysiad heb fai i 6 mis.

---

## Cynlluniau a Strategaethau Cenedlaethol

Mae ***Canllaw'r Grant Cymorth Tai*** yn esbonio bod y Grant Cymorth Tai yn rhaglen ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa lety, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru - ***Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026*** yn nodi'r camau a gymerir dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau mai rhywbeth prin yw digartrefedd, sy'n digwydd am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd.

## Cynlluniau a Strategaethau Lleol

Mae ***Cynllun Lles Caerdydd*** yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Mae **Uchelgais Prifddinas** yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor o weld Caerdydd yn dod yn ddinas flaenllaw ar y llwyfan rhyngwladol.

*Mae* ***Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023*** yn nodi sut y bydd pob partner yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth.

# Gweledigaeth, Egwyddorion a Nodau Allweddol

Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd 2022 - 2026 yn nodi gweledigaeth, egwyddorion a nodau allweddol lefel uchel ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghaerdydd.   Bydd yr egwyddorion a'r nodau allweddol hyn yn llywio ein gwasanaeth dros y pedair blynedd nesaf.

## Ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau digartrefedd y dyfodol

***"Byddwn yn ceisio atal digartrefedd lle bynnag y bo modd, a lle nad yw atal yn bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn digwydd am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd"***

## Ein Hegwyddorion

- Bydd ein gwasanaethau yn seiliedig ar drawma a byddant yn cydnabod achosion sylfaenol digartrefedd
- Byddwn yn cydweithio ar draws ffiniau proffesiynol gyda phartneriaid statudol a'r trydydd sector
- Byddwn yn cyd-gynhyrchu atebion gydag unigolion, teuluoedd a phartneriaid
- Byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn ceisio deall y rhesymau dros anghydraddoldeb
- Byddwn yn mabwysiadu dull pendant o ymdrin â gwasanaethau, gan sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae Nodau Allweddol wedi'u datblygu.  Mae pob nod allweddol yn ffurfio adran o'r strategaeth ac fe'i cefnogir gan ein Blaenoriaethau Strategol.

## Ein Prif Nodau

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd
- Sicrhau bod pawb yn cael y cymorth a'r gefnogaeth gywir
- Mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym tuag at ddigartrefedd
- Darparu llety â chymorth o ansawdd da i'r rhai sydd ei angen.

# Datganiad o Angen

Er mwyn llywio'r Strategaeth hon, cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o anghenion sy'n rhoi dadansoddiad manwl o lefelau ac achosion digartrefedd yng Nghaerdydd, ynghyd â throsolwg o'r adnoddau sydd ar waith i helpu'r rhai mewn angen. Mae'n cynnwys asesiad o'n pyrth i dai a chymorth.

Mae'r asesiad o anghenion wedi'i lywio gan y ffynonellau data canlynol:

- Asesiad Anghenion y Boblogaeth yng Nghaerdydd
- Yr asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol yng Nghaerdydd
- Data o Restr Aros Tai Caerdydd
- Data o'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai
- Data Comisiynu a Chanlyniadau'r Rhaglen Cymorth Tai
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Asesiad o anghenion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol

Mae'r canfyddiadau allweddol wedi'u nodi a lluniwyd casgliad Datganiad o Angen cyffredinol.

Mae'r Datganiad o Angen llawn i'w weld yma:



# Prif ganfyddiadau’r Datganiad o Angen

Mae tua **4,000** aelwyd y flwyddyn yn ceisio cymorth gan y **Gwasanaeth Dewisiadau Tai**

Yn 2020/21, ataliwyd **76%** o aelwydydd a gysylltodd â'r gwasanaeth yn gynnar rhag dod yn ddigartref.

Yn 2020/21 fodd bynnag, roedd **27%** o ostyngiad yn nifer yr aelwydydd a gyflwynodd eu hunain i’r gwasanaeth a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae angen hyrwyddo gwasanaethau atal yn ehangach, er mwyn sicrhau ein bod yn atal digartrefedd lle bynnag y bo modd.

Mae ymchwil **Cyngor ar Bopeth** yn dangos bod **1** ymhob **3** o rentwyr preifat wedi colli incwm yn ystod y pandemig. Yn ychwanegol mae **11%** ar ei hôl hi ar hyn o bryd ar eu rhent.

Yn 2020/21, roedd gostyngiad o **52%** yn yr aelwydydd sy'n ceisio cymorth gydag **ôl-ddyledion morgais a rhent.** Efallai na fydd effaith y gostyngiad yma yn y galw yn cael ei deimlo tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu yn **2022/23.**

Yn 2021/22, rydym yn debygol o weld **600** o aelwydydd mewn perygl a **400** yn dod yn ddigartref yn sgil colli llety a ddarperir gan **rieni, perthnasau neu ffrindiau.**

Mae **47%** o'r rhai sydd wedi derbyn cymorth eleni oherwydd methiant teuluol yn **25 oed neu iau**. Mae **80%** wedi'u hatal rhag dod yn ddigartref ond mae mwy y gellir ei wneud.

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Gorffennaf 2021 roedd pobl oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd yn cyfrif am ddim ond **13%** o'r holl bobl oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru.

Yr her yw helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd i gynnal llety a symud tuag at fyw'n annibynnol cyn gynted â phosibl.

Mae gan lawer o'n cleientiaid broblemau cymhleth fel iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau. Iechyd meddwl yw'r angen arweiniol ac eilaidd mwyaf ar gyfer ein holl gleientiaid cymorth tai.

# Prif ganfyddiadau'r Datganiad o Angen

Ar hyn o bryd mae tua **1,450 o** aelwydydd mewn llety dros dro neu lety â chymorth ar draws yr holl byrth llety a chymorth.

Hyd cyfartalog presennol yr arhosiad i'r rhai ag angen blaenoriaethol yw **234 diwrnod.**

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y ddinas yn cynyddu. Mae cynnydd hefyd yn nifer y bobl ifanc ag anghenion cymorth cymhleth.

Yn 2020/21, ni allai **60** o fenywod gael mynediad i lety lloches oherwydd diffyg lle.

Mae dros **8,000** aelwyd ar restr aros Tai Caerdydd ac mae tua **300** o ymgeiswyr newydd yn ymuno bob mis.

Mae nifer y tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod yn amrywio bob blwyddyn ond rhwng 2019/20 a 2020/21, fe leihaodd y nifer o **14%.**

Yn 2020/21, rhoddwyd **63%** o'r gosodiadau cyffredinol i gleientiaid digartref sydd hefyd wedi arwain at ostyngiad yn yr amser aros cyfartalog ar gyfer y cleientiaid hyn.

Mae llawer o ymgeiswyr nad ydynt yn ddigartref sydd ag angen sylweddol am dai ac felly ni ellir bodloni'r galw am dai cymdeithasol drwy'r cyflenwad presennol er gwaethaf cynlluniau adeiladu newydd uchelgeisiol.

Mae'r defnydd o'r sector rhentu preifat ar gyfer atal digartrefedd a galluogi symud ymlaen wedi gostwng i rai grwpiau. Mae galw mawr ar hyn o bryd a diffyg cyflenwad o lety rhent preifat ledled y ddinas.

Mae rhent ar gyfer eiddo **dwy ystafell wely** yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol o **£200 y** mis. Mae angen archwilio'r problemau yn y sector rhentu preifat yn fanylach a chreu a hyrwyddo opsiynau mwy fforddiadwy

# Casgliad y Datganiad o Angen

## Atal digartrefedd

Bu gostyngiad yn nifer yr aelwydydd a gyflwynodd eu hunain i'r gwasanaeth a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref. Bu hefyd gostyngiad yn yr aelwydydd oedd yn ceisio cymorth gydag ôl-ddyledion morgais a rhent ac ni allwn ragweld pryd y teimlir effaith y galw hwn. Mae angen inni sicrhau ein bod yn hyrwyddo gwasanaethau atal yn eang drwy ddulliau amrywiol i sicrhau ein bod yn atal digartrefedd lle bynnag y bo modd.

## Cefnogi Pobl Ifanc

Mae'r rhai sy'n colli llety a ddarperir gan rieni, perthnasau neu ffrindiau yn dal i fod yn achos mawr o ddigartrefedd. Mae 47% o'r rhai sydd wedi derbyn cymorth eleni yn 25 oed ac iau. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd yn cynyddu ac rydym yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anghenion cymorth cymhleth. Mae angen i ni atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc lle bynnag y bo modd a darparu llety mwy addas i bobl ifanc ag anghenion cymorth uchel.

## Mynd i'r afael â Chysgu ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas. Rhaid inni sicrhau bod y niferoedd yn aros yn isel drwy gefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd i gynnal llety a symud tuag at fyw'n annibynnol. Mae gan lawer o'n cleientiaid broblemau cymhleth fel afiechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau. Rydym wedi gweld cynnydd yn y rhai ag anghenion iechyd meddwl ar draws ein holl wasanaethau cymorth. Mae angen inni ddatblygu a sefydlu ymhellach y dull amlddisgyblaethol i ddiwallu anghenion y rhai ag anghenion cymhleth.

## Cam-drin domestig

Mae'r galw am wasanaethau Cam-drin Domestig yn cynyddu. Mae angen inni sicrhau bod pawb sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

# Casgliad y Datganiad o Angen



## Llety â Chymorth a Llety Dros Dro

Er mwyn atal arosiadau hir mewn llety dros dro, mae angen inni wella opsiynau symud ymlaen.   Rhaid inni hefyd ddatblygu dull cyflym o ailgartrefu fel y gall pobl adael digartrefedd yn gyflym.



## Tai Cymdeithasol

Rydym eisoes yn dyrannu cyfran uchel o'n tai cymdeithasol i gleientiaid digartref, ond mae llawer o ymgeiswyr eraill hefyd nad ydynt yn ddigartref mewn angen sylweddol am dai. Ni all y cyflenwad presennol fodloni'r galw am dai cymdeithasol.  Mae angen inni gynyddu'r cyflenwad o lety sy'n cael ei rentu'n gymdeithasol a gwella mynediad i'r sector rhentu preifat.




## Y Sector Rhentu Preifat

Mae'r defnydd o'r sector rhentu preifat er mwyn  atal digartrefedd a chyflawni'r ddyletswydd tuag at y digartref, wedi gostwng i rai grwpiau. Nid yw'n fforddiadwy i lawer o bobl mwyach.    Mae angen i ni archwilio'r problemau yn y sector rhentu preifat yn fanylach a chreu a hyrwyddo opsiynau mwy fforddiadwy, yn enwedig i deuluoedd.



## Cydraddoldeb

Mae'r asesiad o anghenion wedi nodi bod cyfran uchel o ddynion sengl a'r rhai o gymunedau lleiafrifol yn dod yn ddigartref.  Mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion y grwpiau amrywiol hyn gan gynnwys y gymuned LHDTC+.

# Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd

## Gwasanaethau cyngor ac atal

Yn 2020/21, ataliwyd 76% o aelwydydd a gysylltodd â'r Gwasanaeth Opsiynau Tai yn gynnar rhag dod yn ddigartref, a hyd yn hyn yn 2021/22 bu gwelliannau pellach.

Fodd bynnag, nid yw llawer o aelwydydd yn ceisio cymorth cyn dod yn ddigartref.  Yn ystod 2020/21, bu gostyngiad o 27% yn nifer yr aelwydydd a oedd yn ceisio cymorth a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r pandemig wedi creu heriau economaidd.  Mae ymchwil gan Cyngor ar Bopeth wedi dod i'r casgliad bod 1 o bob 3 rhentwr preifat wedi colli incwm yn ystod y pandemig a bod 11% o rentwyr preifat ar ei hôl hi ar hyn o bryd ar eu rhent.

Fodd bynnag, yn 2020/21 bu gostyngiad o 52% yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth gan y Gwasanaethau Opsiynau Tai gydag ôl-ddyledion morgais a rhent ac mae'r sefyllfa wedi bod yr un fath yn hanner cyntaf 2021/22.

Efallai na fydd effaith y gostyngiad yma yn y galw  yn cael ei deimlo gan y gwasanaeth tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu yn 2022/23.

Mae angen i ni hyrwyddo gwasanaethau atal yn ehangach, gan ddefnyddio dulliau amrywiol i sicrhau ein bod yn atal digartrefedd lle bynnag y bo modd, gan gynnwys hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i helpu aelwydydd fel y Grant Caledi i Denantiaid newydd.



*Mae'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai wedi symud i amgylchedd croesawgar Hyb y Llyfrgell Ganolog, gan wella hygyrchedd i'r gwasanaeth.*

**Blaenoriaeth Strategol 1 - Annog pobl i fanteisio ar wasanaethau cyngor ac atal drwy:**

- Ddatblygu cynllun cyfathrebu i hyrwyddo'n eang y  cymorth sydd ar gael i atal digartrefedd
- Cynyddu hygyrchedd cyngor arbenigol ar dai, cyfryngu a gwasanaethau atal drwy ddarparu'r rhain drwy'r Hybiau Cymunedol.

# Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd

## Atal Teuluoedd rhag Chwalu a Chefnogi Pobl Ifanc

Mae colli llety a ddarperir gan rieni, perthnasau neu ffrindiau yn achos sylweddol digartrefedd yng Nghaerdydd.

Rhagwelir y bydd mwy na 600 o aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref eleni oherwydd methiant teuluol a bydd bron i 400 yn dod yn ddigartref am y rheswm hwn.

Mae 47% o'r rhai sydd wedi cael cymorth eleni hyd yn hyn yn 25 oed neu'n iau.

Mae Swyddog Atal penodedig yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl.

Hyd yn hyn eleni, mae 80% o bobl ifanc sydd mewn perygl o golli llety teuluol wedi cael eu hatal rhag dod yn ddigartref, ond mae mwy y gellir ei wneud o hyd i helpu pobl ifanc yn gynnar.

Dywedodd ein Partneriaid....
"Roedd effaith y pandemig yn fwy (ar bobl ifanc) gan na chaniatawyd cymdeithasu ac roedd mannau cyhoeddus ar gau. Ni allai llawer ohonynt ymweld â ffrindiau a theulu a arweiniodd at bryder ac iselder yn sgil diffyg rhyngweithio cymdeithasol. Caeodd lleoliadau cyhoeddus sydd fel arfer yn denu pobl ifanc, sinemâu ac ati.

Rydym wedi gweld achosion o ddadlau gyda rhieni a chael eu taflu allan o'r cartref teuluol neu adael yn



**Blaenoriaeth Strategol 2 - Atal teuluoedd rhag chwalu lle bynnag y bo modd drwy:**

- Adolygu a gwella ein gwasanaethau cyngor a chyfryngu gan roi sylw arbennig i bobl ifanc
- Ystyried ymyriadau a chymorth wedi'u targedu ar gyfer plant oedran ysgol a'u teuluoedd

# Sicrhau bod pawb yn cael y Cymorth a’r gefnogaeth gywir

## Llwybrau Arbenigol

Yn ogystal â'n prif byrth llety a chymorth, mae llwybrau eraill sy'n cefnogi cleientiaid digartref ag anghenion penodol.

**Ffoaduriaid** - Mae nifer uchel o aelwydydd yng Nghaerdydd yn dod yn ddigartref wrth iddynt symud ymlaen o lety a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) yn dilyn penderfyniad ar eu hachos. Mae gwell cyfathrebu rhwng y Cyngor a darparwyr llety NASS wedi sicrhau bod mwy o gleientiaid yn cael cymorth amserol ond rydym am wella hyn ymhellach.

Yn ystod y pandemig rydym wedi cartrefu'r rheini nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus. Mae ansicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd pan ddaw cyllid caledi i ben. Ar hyn o bryd mae ôl-groniad o benderfyniadau negyddol gyda NASS ac mae pryderon y gallai hyn gynyddu nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd.

**Pobl sy'n Gadael Carchar** - Mae'r rhai sy'n gadael y carchar yn cyfrif am nifer sylweddol o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd. Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Prawf a Charchardai mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael carchar. Mae Swyddog Atal arbenigol yn rheoli ac yn cydlynu'r llwybr tai ar gyfer unrhyw un sy’n gadael carchar sy'n debygol o fod yn ddigartref pan gaiff ei ryddhau, gan sicrhau bod y cymorth a’r gefnogaeth gywir ar gael iddynt.


**Rhyddhau o'r Ysbyty -** Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu dau lwybr rhyddhau o'r ysbyty - un ar gyfer iechyd meddwl a’r llall ar gyfer iechyd corfforol. Mae Swyddogion Ailsefydlu mewn ysbytai yn canolbwyntio ar sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon o'r ysbyty tra'n atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl.

**Blaenoriaeth Strategol 3: Parhau i wella ein llwybrau arbenigol ar gyfer ffoaduriaid, y rhai sy’n gadael y carchar a’r rhai sy’n gadael yr ysbyty drwy:**

- Adeiladu ar y cyfathrebu gwell gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch ffoaduriaid
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector i fynd i'r afael â’r rheini nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus
- Adolygu'r llwybrau rhyddhau carcharorion a rhyddhau o'r ysbyty er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol

# Sicrhau bod pawb yn cael y Cymorth a'r gefnogaeth gywir

## Mynd i'r afael â Chysgu ar y Stryd



Gwnaed cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas.  Gostyngodd y ffigur o 87 i 30 o unigolion ym mis Mawrth 2020 gan ostwng ymhellach i ddim ond 6 unigolyn yn ystod y cyfnod clo cychwynnol a sefydlogi yn yr 20au.

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Gorffennaf 2021 roedd pobl oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd yn cyfrif am ddim ond 13% o'r holl bobl oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru.

Mae nifer cynyddol o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn cael cymorth i fynd i lety, gyda chyfartaledd o 22 lleoliad y mis yn 2021/22 hyd yn hyn.   Fodd bynnag, yr her yw helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd i gynnal y llety hwn a symud tuag at fyw'n annibynnol cyn gynted â phosibl.





## Darparu Gweithgareddau Dargyfeiriol

Mae'r fenter Gweithgareddau Dargyfeiriol wedi'i neilltuo i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn diwylliannau stryd negyddol, gan symud pobl oddi wrth natur broffidiol begera ar y stryd ac adeiladu sgiliau a gallu pobl i symud i fyw'n annibynnol. Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu drwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a mannau creadigol a therapiwtig.

Gan ddefnyddio'r model allgymorth grymuso, mae'r gwasanaeth yn annog ymgysylltu â chymheiriaid a'r gymuned.  Mae hyn yn creu perthnasau rhyngbersonol cadarnhaol, gan roi cyfle i bobl gryfhau rhwydweithiau cymdeithasol ymhlith ei gilydd ac o fewn eu cymuned. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid fel I Mewn i Waith ac Iechyd y Cyhoedd i ddod â hyfforddiant a gweithgareddau eraill i hosteli.

**Blaenoriaeth Strategol 4:  Parhau i gefnogi a chynorthwyo pobl sy'n cysgu ar y stryd i gael gafael ar lety a'i gynnal** – drwy ymgorffori ein dull allgymorth grymusol a datblygu a hyrwyddo manteision Gweithgareddau Dargyfeiriol ymhellach.

# Sicrhau bod pawb yn cael y Cymorth a'r gefnogaeth gywir

## Asesu a diwallu anghenion

Rydym am asesu angen yn briodol a nodi atebion sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn neu deulu. Rydym hefyd am atal "drws troi" digartrefedd, lle mae unigolion a theuluoedd yn cael eu hunain yn ddigartref dro ar ôl tro, drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd a thrwy ddarparu'r llety a'r cymorth cywir.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn mabwysiadu dull asesu amlasiantaethol, gan weithio gyda phartneriaid i ddeall materion sylfaenol unigolyn a sicrhau ei fod yn cael y llety a'r cymorth sy'n briodol i'w anghenion.

Y Ganolfan Asesu newydd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl sengl ag anghenion cymhleth sy'n ddigartref, gan gynnwys y rheiny sy'n cysgu ar y stryd.

Mae'n darparu gwasanaeth 24 awr, gydag asesiad lles amlddisgyblaethol o angen ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth o ansawdd da i bobl sengl ac agored i niwed yn y ddinas.

Hyd yn hyn yn **2021/22** bu **754** cyflwyniad i'r ganolfan.



**Blaenoriaeth Strategol 5: Sefydlu dull asesu/ brysbennu ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref drwy:**

- Sicrhau bod angen yn cael ei nodi'n briodol ar gyfer unigolion a theuluoedd a bod cynlluniau tai a chymorth wedi'u teilwra i anghenion unigol
- Sicrhau bod ein canolfannau i deuluoedd sy'n ddigartref yn cynnig cymorth priodol drwy weithio gyda Chymorth Cynnar a phartneriaid eraill
- Adolygu llwyddiant y Ganolfan Asesu Pobl Sengl Ddigartref ac ystyried datblygu'r cynllun yn y dyfodol.

# Sicrhau bod pawb yn cael y Cymorth a’r gefnogaeth gywir

## Mynd i'r afael ag Anghenion Cymhleth




Mae gan lawer o'n cleientiaid broblemau cymhleth fel afiechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau. Anghenion Iechyd meddwl yw anghenion arweiniol ac eilaidd mwyaf ymhlith ein holl gleientiaid cymorth tai.

Er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion cymhleth, mae Tîm Amlddisgyblaethol Digartrefedd Caerdydd yn cynnig ymyrraeth a thriniaeth therapiwtig i bobl sy’n ddigartref. Mae'r tîm yn cynnwys clinigwyr ac ymarferwyr o wahanol sefydliadau gan gynnwys gweithwyr camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl penodol, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys digartrefedd a swyddog prawf, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau cwnsela. Mae staff cymorth hefyd wedi’u hyfforddi mewn darparu gwasanaethau sy’n seiliedig ar drawma. Er bod rhywfaint o amser meddygon teulu yn cael ei gynnig fel rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol, mae uchelgais i gynyddu hyn a darparu gwasanaethau meddygon teulu yn uniongyrchol yn ein hosteli.

Mae mewnbwn parhaus y Tîm Amlddisgyblaethol arbenigol yn cael effaith wirioneddol, a hirdymor, ar ddigartrefedd yng Nghaerdydd.  Ar hyn o bryd mae 416 o bobl yn cael triniaeth neu’n cael therapi cwnsela tra'u bod yn manteisio ar lety dros dro neu lety â chymorth. Mae gan 104 o'r rhain eu Cydlynydd Achos Anghenion Cymhleth eu hunain.

Rydym am ddatblygu ymhellach y Tîm Amlddisgyblaethol a sicrhau bod llwybrau clir ar waith i symud ymlaen i wasanaethau prif ffrwd pan fo'n briodol.

## Camddefnyddio Sylweddau

I'r rheini sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, mae darparu gwasanaethau rhagnodi dan arweiniad nyrsys yn uniongyrchol i hosteli sydd â'r nod o leihau niwed a rhagnodi cyflym yn ystod y pandemig wedi cael canlyniad cadarnhaol iawn.  Rydym am barhau â'r gwaith rhagorol hwn a chanolbwyntio ar ail-ymgysylltu pendant â'r rhai nad ydynt yn derbyn triniaeth bellach.

**Blaenoriaeth Strategol 6 - Sefydlu a datblygu ymhellach y dull amlddisgyblaethol o ymdrin ag anghenion cymhleth drwy:**

- Ddatblygu ymhellach y Tîm Amlddisgyblaethol a sicrhau bod llwybrau clir ar waith i symud ymlaen i wasanaethau prif ffrwd pan fo'n briodol
- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a chymorth priodol ar gael mewn hosteli a llety â chymorth, gan barhau ac ehangu'r model newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd yn uniongyrchol i'r llety Hyfforddi staff yn llawn a chanolbwyntio ar ailgysylltu pendant â'r rhai a allai syrthio allan o wasanaethau

# Mabwysiadu dull ailgartrefu cartref tuag at ddigartrefedd

## Manteision a heriau Ailgartrefu Cyflym



Mae gan Gaerdydd ystod eang o lety dros dro a llety â chymorth ac mae wedi cynyddu a gwella ei darpariaeth yn ddiweddar.

Ar hyn o bryd mae tua 1,450 o aelwydydd mewn llety dros dro neu lety â chymorth ar draws yr holl byrth llety a chymorth.

Mae treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro yn peri gofid i aelwydydd digartref a gall effeithio ar addysg plant.  Mae angen gwella opsiynau symud ymlaen i atal arosiadau hir mewn llety a datblygu dull ailgartrefu cyflym fel y gall unigolion a theuluoedd adael digartrefedd yn gyflym, ond mae heriau sylweddol i gyflawni hyn, yn enwedig diffyg tai fforddiadwy yng Nghaerdydd.



## Galw am Dai Cymdeithasol

Mae dros 8,000 aelwyd ar restr aros Tai Caerdydd ac mae tua 300 o ymgeiswyr newydd yn ymuno bob mis. Mae nifer y tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod yn amrywio bob blwyddyn ond rhwng 2019/20 a 2020/21, gosodwyd 171 yn llai, gostyngiad o 14%.

O reidrwydd, rydym eisoes yn dyrannu cyfran uchel o'n tai cymdeithasol i gleientiaid digartref.  Yn 2020/21, rhoddwyd 63% o'r gosodiadau cyffredinol i gleientiaid digartref sydd hefyd wedi arwain at ostyngiad yn yr amser aros cyfartalog ar gyfer y cleientiaid hyn.



**Mae llawer o ymgeiswyr nad ydynt yn ddigartref sydd ag angen sylweddol am dai ac felly ni ellir bodloni'r galw am dai cymdeithasol drwy'r cyflenwad presennol er gwaethaf cynlluniau adeiladu newydd uchelgeisiol.**

# Mabwysiadu dull ailgartrefu cartref tuag at ddigartrefedd

## Problemau gyda'r Sector Rhent Preifat

Mae'r defnydd o'r sector rhentu preifat ar gyfer atal digartrefedd a galluogi symud ymlaen o lety dros dro wedi gostwng i rai grwpiau. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod landlordiaid yn gadael y farchnad rhentu preifat ac yn gwerthu eu heiddo. Mae galw mawr ar hyn o bryd a diffyg cyflenwad o lety a rentir yn breifat ledled y ddinas gyda rhenti cyfredol ar gyfer eiddo dwy ystafell wely yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol o £200 y mis. Mae hyn yn cynyddu i £450 ar gyfer eiddo pedair ystafell wely. Mae angen archwilio'r problemau yn y sector rhentu preifat yn fanylach a chreu a hyrwyddo opsiynau mwy fforddiadwy.

## Symud i ffwrdd o "ddull grisiau" (cynyddu neu leihau cyfran eu perchentyaeth) o ailgartrefu

Mae Tŷ yn Gyntaf yn cynnig lleoliadau uniongyrchol mewn tenantiaethau Cyngor, Cymdeithas Dai a sector rhent preifat gyda chymorth dwys a pharhaus. Mae'n rhoi cartref sefydlog i bobl sydd wedi profi digartrefedd, ac sydd ag anghenion cymhleth, i allu ailadeiladu eu bywydau.

Ar hyn o bryd mae tri chynllun Tŷ yn Gyntaf yng Nghaerdydd, dau yn cael eu gweithredu gan y Cyngor, un ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ac un ar gyfer y rhai sy'n gadael carchar. Gweithredir cynllun arall gan Fyddin yr Iachawdwriaeth.

Rydym yn gweithredu ar hyn o bryd ***2 gynllun prydlesu rhent*** **preifat** sy'n cynnig cymhellion i landlordiaid rentu eu heiddo i aelwydydd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Defnyddir un cynllun ar gyfer llety dros dro ac mae'r llall, Cynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru, yn cynnig llety tymor hwy.

***Cynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru***

- incwm rhent gwarantedig am 3 blynedd.
- gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio wedi'i reoli .

Mae'r ***Cynllun Opsiynau Tai*** yn wasanaeth paru tenantiaid ar gyfer landlordiaid.

Mae'n cynnwys:

- archwilio eiddo
- help o hyd at £2000 gydag atgyweiriadau
- Bond a Rhent ymlaen llaw

Mae **93%** o gleientiaid Tŷ yn Gyntaf wedi cynnal llety er gwaethaf anghenion cymhleth.



# Mabwysiadu dull ailgartrefu cartref tuag at ddigartrefedd

**Blaenoriaeth Strategol 7 - Mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym drwy ddatblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym manwl, gan gynnwys:**

- Gwella ein cynnig i landlordiaid preifat, gan ymestyn yr ystod o gymhellion sydd ar gael a hyrwyddo'r cynllun prydlesu rhentu'n breifat;
- Cynyddu'r opsiynau symud ymlaen ar gyfer pobl sengl, gan gynnwys datblygu cynlluniau tai a reolir
- Cynyddu'r cyflenwad o lety rhent cymdeithasol drwy adeiladu 1,500 o unedau tai cymdeithasol dros y 5 mlynedd nesaf (cyngor yn unig) a pharhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy
- Cynyddu'r ddarpariaeth Tŷ yn Gyntaf a mynediad at gymorth dwys yn y gymuned
- Hyrwyddo cyd-gyfnewidfeydd i fynd i'r afael ag angen tai ymhlith tenantiaid cymdeithasol



*Llety â Chymorth Newydd i deuluoedd yn Briardene, Gabalfa*

# Darparu llety â chymorth o ansawdd da i'r rhai sydd ei angen

## Helpu pobl sengl a theuluoedd

Mae Caerdydd eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran cynnig llety â chymorth hunangynhwysol o ansawdd uchel i bobl sengl a theuluoedd.

Byddwn yn adeiladu ar hyn drwy gyflawni gweddill y cynlluniau arfaethedig.



***Adams Court - llety â chymorth i bobl sengl ag anghenion dwys neu gymhleth.***



***Safle'r Gwaith Nwy, Grangetown - llety â chymorth newydd i deuluoedd.***

---

**Blaenoriaeth Strategol 8 - Gwella ansawdd ein llety â chymorth ar gyfer pobl sengl a theuluoedd drwy:**

- Ddarparu'r cynllun tai â chymorth arfaethedig ar gyfer pobl sengl yn Adams Court
- Darparu'r canolfannau digartrefedd ymhlith teuluoedd newydd yn Gasworks a Harrison Drive
- Diddymu'r llety yn raddol nad yw bellach yn bodloni'r safonau gofynnol.

# Darparu llety â chymorth o ansawdd da i'r rhai sydd ei angen

## Cefnogi Pobl Ifanc

Rheolir cymorth a llety i bobl ifanc drwy'r Porth Pobl Ifanc (PPI), partneriaeth â Llamau a Byddin yr Iachawdwriaeth a phob landlord cymdeithasol yng Nghaerdydd.

Mae pobl ifanc yn symud ymlaen o lety PPI pan fyddant yn barod i fyw'n annibynnol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd mor llwyddiannus â phosibl, mae pobl ifanc yn cael hyfforddiant ar sut i fyw'n annibynnol. Mae'r cynllun yn llwyddiannus iawn. **Mae 99% o'r rhai sydd wedi derbyn hyfforddiant ers mis Mawrth 2016 yn cynnal tenantiaethau.**

Fodd bynnag, mae heriau o'n blaenau. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd yn cynyddu a bydd angen llety a chymorth ar y plant hyn drwy'r Porth unwaith y byddant yn troi'n 16/17 oed.

Bu cynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anghenion cymorth cymhleth ac ymddygiadau heriol sy'n anaddas ar gyfer y ddarpariaeth bresennol yn y Porth. Mae angen darparu llety a chymorth mwy addas i'r bobl ifanc hyn.

## Cais Atal Digartrefedd i'r Loteri Genedlaethol

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi darparu £10m i ariannu nifer cyfyngedig o brosiectau strategol, y mae'n rhaid iddynt wneud y canlynol;

- *Ailgynllunio gwasanaethau i wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, nad yw'n para'n hir ac nad yw'n dychwelyd;*
- *Datblygu partneriaeth amlasiantaethol*
- *Canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddefnyddio dulliau ataliol ac ymatebol*
- *Ymateb i'r amgylchedd a achosir gan bandemig.*

Mae ymateb i anghenion pobl ifanc ddigartref yn flaenoriaeth ac yn faes datblygu allweddol yn ein gweledigaeth strategol ar gyfer digartrefedd.

Bydd Llamau yn arwain partneriaeth o sefydliadau yng Nghaerdydd gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a phartneriaid tai lleol eraill yn y trydydd sector i gyflawni'r prosiect 'My Way Home'.

**Blaenoriaeth Strategol 9: Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi drwy:**

- Sicrhau bod llety porth y person ifanc yn diwallu anghenion cyfredol, gan adolygu a chynyddu capasiti o fewn y porth yn ôl yr angen, a chyflwyno cynllun tai cymorth Citadel ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth

# Darparu llety â chymorth o ansawdd da i'r rhai sydd ei angen

## Cefnogi'r rhai sy'n profi cam-drin domestig

Rheolir Porth VAWDASV gan wasanaeth RISE fel rhan o wasanaeth cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tair elfen benodol:

- **Siop Un Stop** - un pwynt mynediad 24/7 i ddioddefwyr, ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol i gael cyngor, cymorth a chynllunio diogelwch.
- **Cymorth yn seiliedig ar lety** - mynediad i loches gymunedol a fflatiau uned hunangynhwysol.
- **Cymorth yn y Gymuned** - cymorth yn ôl yr angen  a chaledu targedau

Mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi cynyddu. Yn 2020/21, bu cynnydd o 51% yn nifer y bobl a oedd yn ddigartref oherwydd methiant treisgar o berthynas.

Rhwng 2019/20 a 2020/21 bu cynnydd o 27% yn nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Heddlu Risg Uchel a dderbyniwyd gan wasanaeth RISE.

Yn 2020/21, methodd 60 o fenywod â chael llety gan nad oedd lle mewn lloches. Rydym am sicrhau bod pawb sydd angen cymorth yn gallu ei gael.

Dywedodd ein Partneriaid "ar draws gwasanaethau VAWDASV, mae mwy o fenywod yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg o argyfwng yn hytrach nag ar gam ataliol / ymyrraeth gynnar."

"Gwelodd gwasanaethau Cam-drin Domestig gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn amlwg cafodd y pandemig a'r cyfnod clo effaith ar hyn."

**Blaenoriaeth Strategol 10:** Sicrhau bod pawb sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael cymorth arbenigol trwy gynnal adolygiad llawn o lety lloches yn y ddinas.

# Darparu gwasanaethau cynhwysol

Cesglir amrywiaeth o ddata cydraddoldeb sy'n ymwneud â chleientiaid digartref i lywio a gwella gwasanaethau.

Mae'r asesiad o anghenion wedi dangos bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar ddynion a chleientiaid sengl o gefndiroedd ethnig penodol.

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae pobl Dduon/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn cyfrif am 2% o boblogaeth Caerdydd; roeddent yn cyfrif am 8% o gleientiaid digartref yn 2020/21. Yn 2021/22, cynyddodd hyn i 11%.

Mae pobl Asiaidd yn cyfrif am 8% o boblogaeth Caerdydd.  Yn 2020/21, roedd 4% o gleientiaid digartref yn Asiaidd, fodd bynnag, yn 2021/22 cynyddodd hyn i 16% o'r holl gleientiaid digartref.

Mae angen ymchwilio ymhellach i'r rhesymau dros y cynnydd hwn.

Mae ymchwil cenedlaethol hefyd yn dangos bod y gymuned LHDTC+ yn dioddef yn anghymesur o ddigartrefedd. Er nad oes gennym ddata i ddangos hyn mae angen i ni sicrhau bod ein gwasanaeth yn gwbl gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas.



**Blaenoriaeth Strategol 11:**

Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn bodloni  grwpiau amrywiol fel dynion sengl, y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LHDTC+ drwy gael gwell dealltwriaeth o sut mae digartrefedd yn effeithio arnynt.

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gydag ystod eang o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2021, yn gofyn am eu sylwadau ar wasanaethau i'r digartref yng Nghaerdydd.

Darparwyd holiadur, yn gofyn i'n partneriaid roi sylwadau ar achosion digartrefedd, cryfderau a gwendidau gwasanaethau, gwasanaethau cymorth i grwpiau penodol ac effaith pandemig Covid. Nodwyd y themâu allweddol canlynol sydd wedi bwydo i mewn i'r strategaeth.

- Manteision gweithio mewn partneriaeth
- Pwysigrwydd Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
- Mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â chyngor a chymorth
- Darparu gwasanaethau o fewn y gymuned.

---

Cynhaliwyd gweithdai pellach gyda phartneriaid ar ddechrau mis Rhagfyr 2021 lle cafodd gweledigaeth, egwyddorion a nodau allweddol y strategaeth eu hystyried a'u trafod, a chafodd y rhain groeso.

# Arolwg Cleientiaid

Gan weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Caerdydd, cynhaliwyd arolwg cleientiaid.

Anfonwyd yr arolwg drwy e-bost at 3,000 o gleientiaid a oedd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai ers mis Ebrill 2020 ac a hyrwyddwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Cynorthwywyd y defnyddwyr gwasanaeth presennol i gwblhau'r arolwg yn ystod apwyntiadau ffôn yn yr Hybiau. Gofynnwyd hefyd i staff a sefydliadau partner sy'n gweithio mewn llety â chymorth gynorthwyo cleientiaid digartref i gwblhau'r arolwg.

Roedd yr arolwg yn 'fyw' rhwng 5 Tachwedd a 13 Rhagfyr a derbyniwyd cyfanswm o 380 ymateb. Adlewyrchir canfyddiadau allweddol yr arolwg hwn yn ein blaenoriaethau strategol.

**79%** o ymatebwyr yn fodlon â'r cyngor tai yr oeddent wedi'i gael

**17%** o ymatebwyr yn ddigartref ar yr adeg y gwnaethant gwblhau'r arolwg

**70%** wedi bod yn ddigartref yn ystod y 3 blynedd diwethaf

## Bygythiadau ac achosion digartrefedd

**68** o ymatebwyr yn nodi fod materion Iechyd Meddwl wedi cyfrannu at eu digartrefedd

**90** wedi colli neu wedi cael eu bygwth â cholli Llety Sector Rhentu Preifat

**63 o gleientiad** a oedd wedi bod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref yn byw gyda pherthnasau neu ffrindiau

**46** o ymatebwyr ddywedodd fod eu landlord am gael eu heiddo yn ôl

# Arolwg Cleientiaid

73%

Disgrifiodd **73%** y cymorth a roddwyd gan Gyngor Caerdydd i atal digartrefedd fel **GWYCH** neu **DA**

**90%**

o'r llety dros dro a gynigiwyd wedi'i dderbyn

**78%**

yn fodlon ar eu llety dros dro

**65%**

yn teimlo y byddant yn gallu parhau i fyw'n annibynnol o ganlyniad i'r cymorth a ddarperir gan eu gweith-iwr cymorth

**64%** Boreau Coffi

**16%** Ffotograffiaeth

**28%** Celf a Chrefft

**28%** Padlfyrddio

**20%** Bocsio

**60%** Dosbarth Coginio



**Gweithgareddau Lles**

O'r ymatebwyr a oedd wedi mynychu Gweithgareddau Lles, roedd y cyrsiau a fynychwyd fel uchod.

## Sylwadau'r cleient

"Mwy o gefnogaeth i wasanaethau iechyd meddwl er mwyn osgoi pobl yn mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf."

"Darparu llety yn gyntaf - yna mynd i'r afael â'r materion eraill."

"Cynnig cymorth a chyngor addas i deuluoedd sy'n gweithio sy'n wynebu digartrefedd oherwydd bod landlordiaid preifat am fanteisio ar y farchnad eiddo ffyniannus bresennol."

# Asesiadau o Effaith

## Canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) wedi ei gwblhau

Cesglir amrywiaeth o ddata cydraddoldeb sy'n ymwneud â chleientiaid digartref ac mae'r asesiad o anghenion wedi dangos bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar ddynion sengl a'r rhai o gefndiroedd ethnig penodol.

Mae’r strategaeth yn gwneud ymrwymiad i gael gwell dealltwriaeth o sut mae digartrefedd yn effeithio ar grwpiau amrywiol fel y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a’r gymuned LHDT+.

Mae'r Gymraeg hefyd wedi cael ei hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi. Gall cleientiaid fynegi dewis iaith ar eu cyswllt cyntaf â gwasanaethau. Bydd yr holl bolisïau iaith Gymraeg sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau i gael eu dilyn.

## Canfyddiadau’r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd wedi'i gwblhau a nodwyd y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar blant. Mae'n ymrwymo i ddarparu ymyriadau a chymorth wedi'u targedu ar gyfer plant oedran ysgol a'u teuluoedd i atal teuluoedd rhag chwalu lle bynnag y bo modd.

Mae Caerdydd eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran cynnig llety â chymorth hunangynhwysol o ansawdd uchel i deuluoedd. Byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy ddarparu gweddill y llety dros dro arfaethedig i deuluoedd a chael gwared â’r llety nad yw bellach yn bodloni'r safonau gofynnol yn raddol. Byddwn yn darparu cymorth i deuluoedd ag anghenion ychwanegol drwy weithio gyda Chymorth Cynnar a phartneriaid eraill.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod gan bob hostel deuluol gyfleusterau chwarae. Mae hyn yn cynnwys mannau chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Yn ogystal, mae'r holl gynlluniau llety i deuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau chwarae sy'n darparu grwpiau chwarae penodol o fewn y cynlluniau llety.

Mae ymrwymo i ddull ailgartrefu cyflym yn sicrhau y gall teuluoedd adael digartrefedd yn gyflym, gan leihau'r aflonyddwch y gall digartrefedd ei achosi i fywyd plentyn.

# Gweithredu, Monitro ac Adolygu

## Gweithio gyda phartneriaid

Ni all y Cyngor weithredu’r strategaeth ar ei ben ei hun a bydd gwaith partneriaeth yn hanfodol i sicrhau’r canlyniadau a’r atebion gorau.

Bydd hyn yn cynnwys cydweithredu rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol yn y Cyngor, a chyda phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys asiantaethau trydydd sector, yr Heddlu, Iechyd, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a landlordiaid preifat.

Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn dangos pa mor effeithiol y gall gweithio mewn partneriaeth rhwng ystod eang o bartneriaid a sefydliadau fod wrth fynd i'r afael â digartrefedd.

## Ffynonellau ariannu

Rhagwelir y gellir cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth drwy gyfuniad o adnoddau cyfredol y gronfa gyffredinol a Grant Cymorth Tai (GCT) Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso

Bydd y Blaenoriaethau Strategol yn y strategaeth hon yn sail i gynllun gweithredu, i'w ddatblygu gyda phartneriaid. Bydd y cynllun gweithredu’n rhoi manylion y gweithgareddau allweddol i’w cynnal ac yn nodi amcanion clir, ynghyd â swyddogion a/neu sefydliadau â chyfrifoldeb arweiniol.

Caiff y broses o’u rhoi ar waith ei monitro’n ofalus a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu a’i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Gellir dod o hyd i’r cynllun gweithredu yma: